# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD MAWRTH, 14 MEHEFIN 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL:**

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| C Anderson | T J Hennegan | P R Hood-Williams |
| L James | J W Jones | P M Meara |
| D Phillips | R V Smith | L V Walton |
| T M White | | |

**Aelodau Annibynnol: -** Mr A M Thomas

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Paul Beynon | Prif Archwiliwr |
| Tracey Meredith | Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro |
| Ben Smith | Pennaeth Cyllid/Dirprwy Swyddog 151 |
| Richard Rowlands | Rheolwr Perfformiad Busnes |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol: -**

| | |
|---|---|
| Geraint Norman | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Williams | Swyddfa Archwilio Cymru |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**
Y Cynghorwyr: R A Clay a C Thomas

1 **ETHOL CADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016-2017.**

**PENDERFYNWYD** ethol Mr A M Thomas yn gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

**(Bu Mr A M Thomas yn llywyddu)**

2 **ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016-2017.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd L James yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

3 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2016 fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiad canlynol: -

Cofnod Rhif 77 - Swyddfa Archwilio Cymru - Cynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2016 - Paragraff 2, brawddeg 2 - newid 'fy' i 'ei'.

Adroddodd y Prif Archwilydd fod manylion ynghylch datgeliadau troseddol AGPh ar gael ar wefan gov.uk. Nododd yn ystod 2015/16 y cafwyd gostyngiad yn y gordaliadau Budd-dal Tai o 5.3% i 5.2% ond bod twyll wedi codi o 2.4% i 3%. Ychwanegodd nad oedd ganddo fanylion am erlyniadau.

5 **HYFFORDDIANT Y PWYLLGOR ARCHWILIO.**

Dosbarthodd y Prif Archwilydd y Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth i Gynghorwyr y Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd gan CIPFA. Amlinellodd fod Pwyllgor y Gwasanaeth Democrataidd wedi penderfynu bod hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr ar y Pwyllgor Archwilio'n orfodol gan amlygu'r meysydd craidd gwybodaeth fel a ganlyn:

- Gwybodaeth Drefniadol;
- Rôl a Swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio;
- Archwilio Mewnol;
- Llywodraethu;
- Rheoli a Chyfrifo Ariannol;
- Archwilio Allanol;
- Rheoli Risgiau;
- Gwrth-dwyll;
- Gwerthoedd Llywodraethu Da.

Yn ogystal, amlinellodd y sgiliau craidd canlynol sy'n angenrheidiol ar gyfer Cynghorwyr: -

- Meddwl Strategol a Deall Materoldeb;
- Cwestiynu a Herio'n Adeiladol;
- Canolbwyntio ar Welliant;
- Gallu cydbwyso ymarferoldeb yn erbyn theori;
- Sgiliau cyfathrebu clir a ffocws ar anghenion y defnyddiwr;
- Gwrthrychedd;
- Sgiliau Rheoli Cyfarfodydd.

Derbyniodd y pwyllgor y cyflwyniadau canlynol: -

- Archwilio a Llywodraethu Mewnol - Paul Beynon, Prif Archwilydd;
- Safonau ym Mywyd Cyhoeddus - Tracey Meredith, Dirprwy Swyddog Monitro;
- Rôl Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Archwilio - Geraint Norman a David Williams, Swyddfa Archwilio Cymru;
- Rheolaeth Ariannol a Chyfrifeg - Ben Smith, Pennaeth Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151.

Gohiriwyd y cyflwyniadau hyfforddi ar reoli risgiau a gwrth-dwyll i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.17 pm

**CADEIRYDD**